

# Asesiad o'r ymateb bywyd gwyllt i gyfnod clo Covid-19 yng ngogledd-orllewin Cymru: cymhariaeth rhwng 2020 a 2021

## Crynodeb gweithredol

### Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2020 cynhaliwyd cyfres o arolygon ar draws ardaloedd allweddol ym Mharc Cenedlaethol Eryri a gogledd-orllewin Cymru, a gomisiynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Nod yr arolygon hyn oedd gwerthuso sut yr oedd bywyd gwyllt y rhanbarth yn ymateb i'r cyfnod clo eithriadol a ysgogwyd gan argyfwng iechyd y Coronafeirws, ac yn bennaf yn cynnwys cofnodi gweithgarwch adar bridio, cyflwr llystyfiant a nifer yr achosion o sbwriel. Roedd yr arolygon yn cwmpasu pedwar safle ucheldir (Yr Wyddfa, Dyffryn Ogwen, y Carneddau a Chader Idris) a thri safle tir iseldirol (Ceunant Llennyrch, Coed-y-Brenin a Niwbwrch). Ailadroddwyd arolygon o'r ardaloedd hyn ym mis Mehefin 2021 er mwyn gallu gwneud cymariaethau rhwng y ddwy flynedd: cymharu tymor anarferol o dawel y gwanwyn i ymwelwyr yn 2020 gyda thymor ymwelwyr eithriadol o brysur a brofwyd yn 2021 ar ôl i'r Parc ail agor yn llawn i'r cyhoedd. Amlinellir canfyddiadau allweddol yr arolygon hyn isod, gyda chrynodeb manylach ac adroddiadau fesul safle unigol ar gael ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyfoeth Naturiol Cymru.


### Canfyddiadau allweddol

#### **Llai o ddigonedd ac amrywiaeth o fywyd adar ar draws ardaloedd yr ucheldir.**

Roedd digonedd ac amrywiaeth (h.y. nifer y rhywogaethau) o fywyd adar yn llawer is ar draws y pedwar safle ucheldir yn 2021 o'i gymharu â 2020. Ychydig o wahaniaeth ganfuwyd ar draws y safleoedd tir iseldirol rhwng yr arolygon. Cofnodwyd cyfanswm o 65 rhywogaeth o adar ar draws holl safleoedd yr ucheldir yn 2020, o'i gymharu â 50 yn 2021; tra bod digonedd yr adar yn cynnwys 1609 o adar unigol yn 2020, o'i gymharu â 1491 yn 2021. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i raddau helaeth i'r gwrthgyferbyniad llwyr yn y tywydd yn ystod y ddau dymor; yn arbennig, gwanwyn oer iawn yn 2021 yn gohirio tymhorau bridio i lawer o rywogaethau adar ac yn arwain at lai o adar wedi'u cofnodi ar adeg yr arolwg yn 2021. *Byddai set ddata tymor hwy o'r ardaloedd hyn yn helpu i ddarparu cymariaethau mwy dibynadwy y gellir cyferbynnu cyfnod eithriadol 'cyfnod clo' 2020 â hwy.*



Mwylach y Mynydd yn casglu bwyd i'w gywion ar ochrau Cader Idris. Datgelodd arolygon 2021 lai o amrywiaeth o rywogaethau adar bridio ar draws safleoedd yr ucheldir.




Ffigur 1. Digonedd o fywyd adar (h.y. cyfanswm nifer yr adar unigol) a gofnodwyd ar draws safleoedd yr arolwg yn 2020 a 2021. Mae gostyngiad mewn digonedd o fywyd adar yn 2021 o'i gymharu â 2020 yn fwyaf amlwg ar gyfer Yr Wyddfa, Dyffryn Ogwen a Chader Idris yn safleoedd arolwg yr ucheldir.

### Mwy o waredu sbwriel


Un o'r gwrthgyferbyniadau digalon ac amlwg rhwng 2020 a 2021 oedd faint o sbwriel a gwastraff a gofnodwyd yn ardaloedd mwyaf poblogaidd safleoedd yr arolwg yn 2021. Yn ardaloedd yr ucheldir, cofnodwyd cyfanswm o 418 darn o sbwriel o 30 math o sbwriel ar draws y pedwar safle yn ystod ymweliadau'r arolwg, o'i gymharu â 93 eitem o 24 math yn 2020. Y safleoedd â'r lefel uchaf o sbwriel oedd Yr Wyddfa (299 o ddarnau) a Dyffryn Ogwen (88 darn), tra bod y ddau safle ucheldir arall yn gymharol rydd o sbwriel a gwastraff, gyda dim ond tri darn wedi'u cofnodi ar y Carneddau a 28 ar Gader Idris yn ystod yr ymweliadau arolwg. Mae'n ymddangos bod y gweithgaredd hwn yn effeithio llai ar y safleoedd tir isel, gydag 89 o wahanol ddarnau o 16 math wedi'u cofnodi ar draws y tri safle yn 2021, o'i gymharu â 12 eitem o sbwriel gwahanol o saith math yn 2020. Y safle tir isel yr effeithiwyd arno fwyaf o bell ffordd oedd Niwbwrch, lle canfuwyd cyfanswm o 78 o eitemau a 15 math gwahanol o sbwriel yn ystod yr arolwg, wedi'u crynhoi'n bennaf o amgylch ardal 'maes parcio'r traeth'. Yr eitemau sbwriel mwyaf cyffredin a ganfuwyd yn 2021 oedd cynnrych lapio a phacedi melysion plastig (128) ac yna gweddiollion sigarêts wedi'u taflu o amgylch carneddau'r copa (127) a photeli plastig (53).



Bag plastig yn llawn sbwriel a gasglwyd o gopa Tryfan.



Ffigur 1. Digonedd o sbwriel (h.y. nifer yr eitemau sbwriel gwahanol) a gofnodwyd ar draws safleoedd yr arolwg yn 2020 a 2021.



Ffigur 2. Trosolwg o'r mathau mwyaf cyffredin o sbwriel a gofnodwyd ar draws safleoedd yr arolwg yn ystod arolygon 2021.

### Tarfu ar adar bridio.

Rhoddodd arolygon ddarlun cymysg ar gyfer effeithiau ymwelwyr ar y bywyd adar yn yr ardaloedd hyn:

### Llynnoedd yr ucheldir.

Roedd llynnoedd yr ucheldir yn cynnwys llai o barau bridio o Bibyddion y Traeth Cyffredin – rhywogaeth rhydio trwy ddŵr sy'n gallu bod yn sensitif i aflonyddwch gan bobl a mwy o ddefnydd o llynnoedd poblogaidd fel Llyn Idwal a Llyn Llydaw. Nodwyd llai o barau o Bibyddion y Traeth Cyffredin o amgylch Llyn Llydaw (pedwar aderyn yn 2021 o'i gymharu ag wyth yn 2020) a Llyn Idwal (dau aderyn yn 2021 o'i gymharu â chwech yn 2020), ac ni welwyd unrhyw adar o amgylch Llyn Gafr (Cader Idris) yn 2021 lle gwelwyd un pâr yn 2020. Ar nodyn cadarnhaol, cofnodwyd un pâr ar Lyn Bochlwyd (islaw Tryfan) yn 2021 lle na welwyd unrhyw adar yn 2020. Gellir priodoli'r newidiadau hyn rhwng blynnyddoedd yn rhannol unwaith eto i wahanol dywydd, ond gall aflonyddwch hefyd fod yn ffactor. Mewn newyddion eraill, cofnodwyd pâr o'r Gwyach Cribog Mawr unwaith eto yn nythu ar ymyl ddeheuol Llyn Idwal, lle gwelwyd pâr yn bridio yn ystod tymor 2020. Croesewir gweld yr adar hyn yn parhau i fridio yn fan hyn er gwaethaf y lefelau uwch o ymwelwyr yn 2021 o'i gymharu â 2020.

### Bywyd adar yn agos at y prif lwybrau.

Yn 2020, nodwyd bod llawer o rywogaethau adar, gan gynnwys Corhedydd y Waun, Tinwyn y Garn a hyd yn oed Mwyalch y Mynydd, yn bridio'n agos at y llwybrau sy'n boblogaidd fel arfer, yn enwedig mewn ardaloedd ucheldirol. Nid oedd hyn yn wir yn 2021, ac ychydig o rywogaethau a welwyd yn nythu'n agos at y llwybrau. Ar Ynys Llanddwyn, nid oedd unrhyw arwydd o'r Cwtiad Torchog a gofnodwyd yn nythu ar y traeth bach ger Twr Mawr yn 2020; a dim ond un pâr o Biod y Môr a

welwyd o amgylch yr ynys lle cofnodwyd saith pâr yn bridio o amgylch ei harfordir yn 2020. Gellid priodoli absenoldeb Cwtiad Torchog i fwy o aflonyddwch o du ymwelwyr yn ystod 2021, gan fod y rhywogaeth hon yn sensitif iawn i aflonyddwch rheolaidd; Mae Piod y Môr yn fwy gwydn i'r defnydd a wneir o ardaloedd, ond gallai hyn barhau i fod yn rhan o'r gostyngiad a welwyd yn 2021.



Cofnodwyd bod rhywogaethau adar fel Corhedydd Y Waun (uwchben ar y chwith) a Thinwyn Gogleddol (uwchben ar y dde) yn llai o ddigonedd ar draws safleoedd ucheldir yn 2021, ac ychydig iawn a ganfuwyd yn nythu'n agos at lwybrau.

### **Gwersylla ar hap a phwysau ymwelwyr ar safleoedd.**

Er bod prif ffocws yr arolygon hyn ar fywyd gwyllt y rhanbarthau hyn, gwnaed nodiadau hefyd am ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â'r cynnydd dramatig yn nifer yr ymwelwyr a brofwyd. Mae 'gwersylla ar hap' wedi bod yn ffactor pwysig ers ail agory Parc Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2020, gyda nifer fawr o bobl yn gwersylla ar hap o amgylch safleoedd poblogaidd fel Cwm Idwal yn Nyffryn Ogwen, ac yn aml yn gadael llawer iawn o sbwriel, gwastraff a deunydd ymolchi ac ati yn yr ardal gyfagos. Cofnodwyd arsylwadau sy'n berthnasol i'r mater hwn ar ymweliadau'r arolwg: cofnodwyd cyfanswm o 15 o bebyll ar gyrion Llyn Idwal ar 12 Mehefin 2021, ynghyd â nifer o gychod chwyddadwy a allai achosi aflonyddwch i rywogaethau fel y Gwyach Gribog Fawr a Phibyddion y Traeth Cyffredin a grybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad. Cofnodwyd dwy babel, a bag yn llawn sbwriel wedi'i daflu, ar gyrion Llyn Cau (Cader Idris) ar 27 Mehefin 2021; a chofnodwyd tair pabell o amgylch y llynnoedd i'r gogledd o'r Elen (y Carneddau) ar 13 Mehefin 2021, ond heb unrhyw sbwriel cysylltiedig amlwg wedi ei adael ar ôl yma.



Cofnodwyd 'gwerysilla ar hap' mewn rhai ardaloedd yn ystod arolygon 2021. Tynnwyd lluniau o'r pebyll hyn ar gyrion Llyn Idwal ar 12 Mehefin, er gwaethaf llawer o arwyddion yn rhybuddio ymwelwyr bod gwerysilla'n cael ei wahardd ar hyn o bryd drwy gydol tymor 2021 mewn ardaloedd fel hyn.

### **Erydiad llwybr troed a phwysau llystyfiant ar lannau afonydd.**

Roedd llwybrau troed poblogaidd yn dangos arwyddion o ledw ac olion erydu yn dilynol hynny ar gymunedau o llystyfiant a phridd gerllaw. Er enghraifft, mae'r prif lwybr troed sy'n esgyn i'r Garn o Twll Du (Cwm Idwal) mewn perygl o ledw ymhellach ac effeithio ar gymunedau sensitif o Helyg Corrach (*Salix herbacea*) sy'n tyfu ar lawr gwlad yma. Yng Ngheunant Llennyrch, mae llwybrau troed yng ngheunant yr afon ac ar hyd glan yr afon yn effeithio ar gymunedau pwysig o ferlod a mwsoglau mewn rhai ardaloedd. Mae poblogrwydd cynyddol y rhaeadrau islaw Cwm Llan (sydd ar gael ar hyd Llwybr Watkin Yr Wyddfa wedi arwain at sathru nifer o lwybrau troed newydd at ymyl yr afon, a chywasgu llawer o llystyfiant ar hyd ochrau'r afon mewn nifer o ardaloedd.

### **Cydnabyddiaethau**

Hoffwn ddiolch i nifer o bobl a gynorthwyodd gyda'r arolygon maes ar gyfer gwaith ymchwil 2021, gan gynnwys Billy Dykes, Steve Porter, Deio Williams, Rachel Porter, Jo Porter a Nigel Brown, ac i Stephen Hinde am ei gyngor a'i wybodaeth am waith yr arolwg.

Hoffem ddiolch i'r gwahanol berchnogion tir ar draws ardal yr arolwg a gytunodd i roi mynediad i'r safleoedd hyn er mwyn caniatáu i'r gwaith gael ei gynnal.